# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>18 MEHEFIN, 2024 am 10 o'r gloch yb | | TUESDAY,<br>18 JUNE 2024 at 10.00 am |
| CYFARFOD HYBRID - YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | HYBRID MEETING - COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752518 | Committee Officer |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Dr Thomas Rhys Davies (Cadeirydd/Chair)
Mr Brace Griffiths
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen (Is-gadeirydd/Vice-Chair)

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 14)

Cadarnhau cofnodion drafft cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-.

- 13 Rhagfyr 2023
- 15 Chwefror 2024 (Arbennig)

**3** **DATBLYGIAD A HYFFORDDIANT AELODAU** (Tudalennau 15 - 30)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

**4** **CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDD CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 31 - 38)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref/Cymuned
ar gyfer Chwarter 3 a 4 o 2023/2024

**5** **PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 39 - 48)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr 2023.

**6** **PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 49 - 58)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau PDC yng Nghymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr 2023.

**7** **CEISIADAU AM GANIATAD ARBENNIG**

Mae'n arferol i adroddiad gael ei baratoi i'r Pwyllgor Safonau gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatadau arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfnod rhwng y Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr 2023 a diwrnod cyhoeddi'r rhaglen hon, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Ar y sail hon, nid oes adroddiad ynghlwm.

8 **DIWEDDARIAD AM Y FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL** (Tudalennau 59 - 60)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Fforwm Cenedlaethol Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau yng Nghymru

9 **ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O FUDDIANNAU AR GYFER SAMPL O AELODAU ETHOLEDIG Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 61 - 64)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro gyda manylion y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr adolygiadau o gofrestrau buddiannau ar gyfer sampl o aelodau etholedig.

10 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 65 - 66)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus atodedig."

11 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) MEWN PERTHYNAS Â CHYNGHORWYR CYMUNED YN YSTOD CHWARTER 4 O 2023/2024** (Tudalennau 67 - 72)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â hysbysu'r Pwyllgor o'r duedd sy'n codi yn y cwynion a anfonwyd at OGCC mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 13 Rhagfyr 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr T Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mr Trefor Owen<br>Mrs Sharon Warnes |
| | **Cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Cynghorydd Margaret M Roberts<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| | **Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Democratiaeth (ar gyfer Eitem 3)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 14) (RJ)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (EP) (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Hyfforddiant Adnoddau Dynol (AJ) (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Margaret Thomas (Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Estynnodd groeso cynnes i'r Cynghorydd Margaret M Roberts, Mr Trefor Owen, a Mrs Elen Pritchard i'w cyfarfod cyntaf gyda'r Pwyllgor Safonau.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr Iorwerth Roberts ddiddordeb personol yn Eitem 8 ar yr agenda, gan fod yr eitem hon yn ymwneud â Chaniatâd Arbennig a roddwyd iddo gan Banel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau.

**2. COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd bod cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 yn gywir.

**Materion yn codi: -**

O ran darparu hyfforddiant ychwanegol ar faterion cynllunio ar gyfer aelodau'n gyffredinol, dywedodd y Swyddog Hyfforddiant AD bod swyddogion cynllunio wedi cadarnhau nad ydynt yn gallu darparu'r math hwn o hyfforddiant ar hyn o bryd, ac mae'r elfen Hyfforddiant yn cael ei thrafod gyda darparwyr allanol.

## 3. DIWEDDARIAD Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau gan y Gwasanaeth ers I'r Pwyllgor Safonau gwrdd ddiwethaf ym mis Mehefin.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth: -

- Mae'r Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Hybrid ar waith ers mis Hydref. Cwblheir adolygiad yn y flwyddyn newydd er mwyn ystyried a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau pellach I'r Protocol.
- Mae modiwlau ynghylch llesiant aelodau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu I Aelodau, ac mae'r Cyngor yn gobeithio ei ddatblygu ymhellach. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r CLlLC ar ddarparu hyfforddiant, ac mae'n disgwyl derbyn Fframwaith Hunan-asesu Datblygiad Aelodau gan y CLlLC yn y flwyddyn newydd, fydd yn sylfaen ar gyfer trafodaeth newydd.
- Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol gan 26 Aelod Etholedig allan o 35 ar gyfer cyfnod 2022/23, sydd yn welliant sylweddol ar y flwyddyn ganlynol. Bydd y Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o'r broses y dylai aelodau ei dilyn er mwyn cwblhau a chyflwyno eu hadroddiadau blynyddol rhwng Mawrth a Mai y flwyddyn nesaf. Mae Trafodaethau wedi cymryd lle gydag awdurdodau lleol eraill ynghylch eu profiadau nhw o ran adroddiadau blynyddol aelodau.
- Mae templed yr adroddiad yn cael ei addasu a'i symleiddio ar gyfer y flwyddyn nesaf – bydd gwybodaeth ynghylch hyfforddiant aelodau'n cael ei huwchlwytho i'r templed newydd yn awtomatig, yn hytrach na bod aelodau'n gorfod gwneud y dasg hon â llaw.
- Mae disgrifiadau swyddi ar gyfer Arweinyddion Grŵp ar waith ar hyn o bryd, ac maent wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cymharu ei ddisgrifiadau swyddi ei hun gyda thempledi CLlLC, a dengys eu bod yn cyd-fynd â nhw. Cynhelir ymgynghoriad pellach yn fuan gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod eu disgrifiadau swydd yn addas at eu diben.
- Mae Cofrestrau Diddordebau Aelodau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Nodwyd bod y Pwyllgor yn bwriadu adolygu sampl o Gofrestrau Diddordebau aelodau'n fuan.

Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar a fyddai Arweinyddion Grwpiau'n elwa o gael templed syml i gofnodi llwyddiannau, datblygiadau ac ati yn eu Hadolygiadau Blynyddol i Aelodau. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y byddai'n dwyn y mater i sylw'r Arweinyddion Grwpiau, ac y byddai'n fodlon hwyluso'r broses gyda chaniatâd yr Arweinyddion Grwpiau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Y byddai'r Pennaeth Democratiaeth yn dwyn y mater o ddefnyddio templed i gofnodi gwybodaeth mewn perthynas ag Adolygiadau Blynyddol Aelodau i sylw'r Arweinyddion Grwpiau.**

**Cam: Gweler Penderfyniad Uchod**

**4. DATBLYGIAD AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Hyfforddiant Adnoddau Dynol mewn perthynas â hyfforddiant a datblygiad sydd wedi cael ei gynnig i aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Tachwedd 2023.

Dywedodd y Swyddog Hyfforddiant AD fod y Cynllun Hyfforddiant ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 yn cael ei rannu yn gategorïau, h.y., Hyfforddiant Mandadol; Hyfforddiant Cyffredinol; Iechyd a Llesiant; Hyfforddiant ar Gais; modiwlau E-ddysgu sydd ar gael ar y Llwyfan E-ddysgu, y Gronfa Ddysgu. Dywedodd hefyd ers mis Ebrill 2023, mae 27 sesiwn hyfforddi a datblygu wedi'u cynnig i aelodau.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 yr adroddiad, sy'n canolbwyntio ar nifer y gwahoddiadau a dderbyniwyd gan aelodau i gymryd rhan mewn hyfforddiant, a faint ohonynt a oedd yn bresennol yn y sesiynau. Nodwyd bod mwy o bwyslais ar hyfforddiant mandadol, ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y sesiynau hynny. Hyd yma, mae pob aelod wedi cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad; mae 15 wedi mynychu sesiynau Iechyd a Diogelwch (mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2024); mae 29 wedi cwblhau hyfforddiant GDPR/Diogelu Data, mae 29 hefyd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu, ac mae 21 wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Newid Hinsawdd. Dywedodd y Swyddog Hyfforddiant y bydd sesiwn ar Seiberddiogelwch ar gael i aelodau'n fuan. Nodwyd bod sesiynau sgiliau TGCh 1 i 1 wedi cael eu cynnal, ac maent wedi'u cefnogi gan ganllawiau '*Cam wrth Gam'.*

Er yr ystyrir bod safon peth o'r hyfforddiant yn dda iawn, mae aelodau hefyd wedi mynegi pryder nad oedd ansawdd rhai o'r sesiynau hyfforddiant yn foddhaol. Dywedodd y Swyddog Hyfforddiant AD ei bod yn gwerthfawrogi'r adborth, ac y byddai'n gweithredu ar y wybodaeth a gyflwynwyd.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ffyrdd i annog aelodau i fynychu hyfforddiant mandadol. Argymhellodd y Swyddog Monitro bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, fel rhan o'u dyletswyddau statudol newydd, yn gofyn am ddata ystadegol gan Arweinyddion Grwpiau ynghylch presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant mandadol, yn ystod eu cyfarfod nesaf gyda'r Arweinyddion Grwpiau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gofyn am ddiweddariad gan Arweinyddion Grwpiau ar bresenoldeb aelodau mewn sesiynau hyfforddiant mandadol.**

**Cam: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**5. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar gwynion chwarterol a dderbyniwyd gan OGCC ers y Pwyllgor Safonau diwethaf ym mis Mehefin mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyd Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod dwy gŵyn wedi'u cyflwyno i OGCC yn erbyn Cynghorwyr Sir ar gyfer Chwarter 1, 2023/24 gan aelodau o'r cyhoedd, ond penderfynodd yr Ombwdsmon i beidio ag ymchwilio ymhellach. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer y cyfnod.

Nodwyd bod yr Ombwdsmon wedi derbyn dwy gŵyn yn erbyn Cynghorwyr Sir yn ystod Chwarter 2, 2023/24. Derbyniwyd y gŵyn gyntaf gan aelod etholedig, ac mae'r Ombwdsmon yn ei harchwilio. Roedd yr ail gŵyn gan aelod o'r cyhoedd, ond penderfynodd yr Ombwdsmon i beidio ag ymchwilio ymhellach. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer y cyfnod.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1-4 yn yr adroddiad.**
- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn dosbarthu Atodiadau 1-4 i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor, a Chlerciaid Cynghorau Tref a Chymuned, drwy eu cylchlythyrau perthnasol.**

**Cam: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**6. PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn crynhoi canfyddiadau cyhoeddedig OGCC ar gwynion Cod Ymddygiad rhwng Mehefin a Tachwedd 2023.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod yr Ombwdsmon wedi derbyn 13 cwyn (Atodiad 1 yr adroddiad), a thrafodwyd achosion 1, 2, 3 a 13 mewn mwy o fanylder. Dywedodd fod Achosion 1 a 2 yn cyfeirio at ddau achos o Gyngor Sir y Mwmbwls, oedd yn cynnwys Cynghorydd a oedd wedi bod yn destun archwiliad ar gyfer torri'r Cod Ymddygiad, ac sydd wedi gadael ei rôl ers hynny, a oedd yn cyfyngu unrhyw gosbau y gallai'r Pwyllgor Safonau eu gosod.

Mewn perthynas ag Achos 3, roedd Cynghorydd o Gyngor Tref Bae Colwyn wedi torri'r Cod drwy rannu neges wleidyddol sarhaus ar y cyfryngau cymdeithasol. Er bod y Cod wedi'i dorri, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd y gŵyn yn cymhwyso ar gyfer y broses "ddwy ffordd", ac felly, ni ystyriwyd bod unrhyw fudd cyhoeddus ar gyfer ymchwilio ymhellach i'r achos. Rhybuddiwyd y Cynghorydd i gymryd pwyll wrth rannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol.

Nodwyd bod y CLlLC wedi datblygu canllaw ar gyfer aelodau etholedig yn ymwneud â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Atgoffwyd y Pwyllgor bod angen cymryd pwyll wrth rannu negeseuon ar-lein.

Roedd Achos 13 yn cyfeirio at gŵyn yn erbyn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a honnwyd ei fod wedi cymryd rhan ac wedi pleidleisio mewn cyfarfod rhithiol wrth yrru cerbyd. Nododd yr Ombwdsmon, er bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod, nid oedd yr Heddlu wedi trin ei ymddygiad dan achos troseddol ond roeddynt wedi adrodd ar y drosedd. Penderfynodd yr Ombwdsmon i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn yr achos hwn, ond nododd y byddai cofnod o'r achos yn cael ei gadw ac y byddai'n cael ei ystyried eto pe byddai'r Cynghorydd yn torri'r Cod yn y dyfodol. Nodwyd bod yr achos hwn yn berthnasol i aelodau, yn enwedig yng ngoleuni cyhoeddi'r Protocol newydd ar gyfer Cyfarfodydd Hybrid, a gafodd ei drafod gyda'r Pennaeth Democratiaeth dan Eitem 3, gan ei fod yn tynnu sylw at yr ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan aelodau wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Cam: Dim**

## 7. PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn crynhoi'r materion a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru (PDC) gan yr Ombwdsmon ac sydd wedi cael eu cyhoeddi gan y PDC ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

Roedd yr achos cyntaf yn cynnwys gwrandawiad dros dro yn ymwneud â honiadau bod aelod etholedig o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth wedi cyflawni toriadau difrifol yn erbyn y Cod Ymddygiad mewn perthynas â phum honiad gwahanol o aflonyddu rhywiol. Dywedodd fod PDC wedi gwahardd y Cynghorydd am 6 mis.

Dywedodd y Swyddog Monitro mai dyma'r tro cyntaf i'r PDC ddefnyddio ei bwerau gwneud penderfyniadau i gosbi Cynghorydd ar sail dros dro. Ddywedodd y bydd y Panel yn cyflwyno penderfyniad pellach yn fuan.

Roedd yr ail achos yn cyfeirio at aelod etholedig blaenorol a oedd wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy anfon gohebiaeth yn rheolaidd at sawl derbynnydd a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol. Roedd y Cynghorydd wedi anwybyddu cyngor a roddwyd iddi. Cafodd y Cynghorydd ei diarddel gan y PDC am 18 mis.

O ran diarddel, dywedodd y Swyddog Monitro y bydd yn rhaid i aelodau etholedig ddilyn proses ddemocrataidd er mwyn cael eu hail-ethol. Dywedodd y gall aelodau sy'n derbyn cosb dros dro ddychwelyd i'w dyletswyddau etholedig unwaith y bydd y gosb wedi dod i ben, os yw hynny o fewn cyfnod swydd. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at benderfyniad blaenorol a wnaed mewn achos cyfreithiol, sef "Calver", ble nodwyd bod rhaid i uwch swyddogion y Cyngor feithrin "croen tew" er mwyn delio gyda bygythiadau a heriau gan y cyhoedd ac aelodau etholedig. Dywedodd y

Swyddog Monitro fod yr achos hwn yn profi, er y penderfyniad, os yw ymddygiad unigolyn ddigon difrifol, ac yn parhau am gyfnod, bydd y Panel yn darparu cymorth i uwch swyddogion.

Roedd y trydydd achos yn ymwneud ag aelod blaenorol o Gyngor Tref a Chadeirydd y Cyngor hwnnw, a oedd wedi bod yn anonest gydag Archwilio Cymru wrth archwilio mater caffael. Cafodd yr aelod ei ddiarddel am 15 mis. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro bod nifer o ffactorau gwaethygol ynghlwm â'r cais hwn, gan fod y Cynghorydd wedi osgoi hysbysu'r archwilydd ei fod wedi gwneud gwallau. Nid oedd y Cynghorydd wedi cydnabod ei fod ar fai, ac roedd wedi ceisio cuddio ei gamgymeriadau.

Roedd y pedwerydd achos yn cyfeirio at aelod blaenorol o Gyngor Tref a oedd wedi pledio'n euog o drosedd dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro bod nifer o ffactorau gwaethygol ynghlwm â'r cais hwn, gan arwain at gosb o ddiarddeliad am 9 mis. Er bod y Cynghorydd wedi pledio'n euog yn yr achos Llys, nid oedd wedi ymddiheuro am ei ymddygiad o ran y Cod, ac nid oedd wedi delio â'r mater gyda digon o ddifrifoldeb ym marn PDC.

Nodwyd y bydd y Pwyntiau Dysgu o'r achosion hyn yn cael eu rhannu yn y Cylchlythyrau gydag aelodau etholedig ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn fuan.

**PENDERFYNWYD nodi'r astudiaethau achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**

**Cam: Dim**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar ganlyniad unrhyw gais am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ers ei gyfarfod diwethaf.

Cyflwynwyd cais am ganiatâd arbennig gan y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran, a gafodd ei ystyried gan Banel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau ar 3 Hydref 2023. Roedd y cais yn ceisio darparu caniatâd i'r Cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch mater ar y gweill fydd yn cael ei drafod gan y Cyngor Cymuned, yn ei rôl fel Cadeirydd.

Roedd Cynghorydd Roberts wedi mynegi datganiad o ddiddordeb personol yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r eitem hon, a cheisiodd gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a ddylai adael y cyfarfod tra bo'r eitem yn cael ei thrafod. Dywedodd y Swyddog Monitro y gallai'r Cynghorydd Roberts aros yn y cyfarfod, a bod datgan diddordeb personol yn ddigonol, gan fod y mater yn cael ei drafod er gwybodaeth yn unig, fel bod aelodau'r Panel Caniatâd Arbennig yn gallu cadarnhau cofnodion y Gwrandawiad ar 3 Hydref 2023, fel yr ymddengys yn Atodiad 1 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd ar sail a'r amgylchiadau ar gyfer gwneud hynny, fel y nodwyd yn yr adroddiad.**
- **Bod dau o aelodau'r Panel Caniatâd Arbennig a oedd yn bresennol yn y gwrandawiad ar 3 Hydref, 2023 a chyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr, 2023, Mr John R Jones a Dr Rhys Davies, wedi cadarnhau bod cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig yn Atodiad 1 yr adroddiad yn gywir.**

**Cam: Dim**

## 9. PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL YN Y CYNHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y Protocol Datrysiad Lleol a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Safonau fel atodiad i Brotocol Un Llais Cymru, i'w ddefnyddio gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y fersiwn derfynol o'r Protocol Datrysiad Lleol wedi cael ei rhannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned drwy Gylchlythyr y Pwyllgor Safonau ym mis Hydref. Dywedodd y dylai Cynghorau Tref a Chymuned fabwysiadu a defnyddio Protocol Un Llais Cymru i adfer materion ymddygiad. Nodwyd bod cyfyngiadau o fewn Protocol Un Llais Cymru, ac mewn amgylchiadau o'r fath (e.e. pe byddai'r Cadeirydd neu'r Clerc ynghlwm â mater dan ystyriaeth), dylai Cynghorau Tref a Chymuned ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ymyrryd er mwyn adfer materion cyswllt dan Brotocol Datrysiad Lleol y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned; byddai ymrwymiad o'r fath yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Trafododd y Pwyllgor Safonau ffyrdd i atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned o'r Protocol Datrysiad Lleol yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Fod y pum aelod annibynnol a'r ddau gynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned y Pwyllgor Safonau yn cymryd rhan mewn Hyfforddiant Cyfryngu ym mis Ionawr 2024.**

**Cam: Gweler y penderfyniad uchod.**

## 10. DIWEDDARIAD AR FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU CENEDLAETHOL CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol sydd wedi cael ei sefydlu yng Nghymru.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cymryd rhan yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ym mis Mehefin, a thynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:-

- Rhoddodd Cadeirydd y Fforwm, yr Athro Mark Philip, gyflwyniad ar Arwain Ymarfer yn Lloegr.
- Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar yr adroddiad Penn, adnoddau'r Pwyllgor Safonau, rhannu arfer da, cynnal safon dda o gydweithio gyda'r Arweinyddion Grŵp, Cynghorau Tref a Chymuned ac ati.
- Bydd y CLlLC yn cynnal sesiwn gadeirio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.
- Diweddariad gan Michelle Morris o OGCC ar yr achosion a adroddwyd h.y. 280 o gwynion wedi'u hatgyfeirio i'r Ombwdsmon, sydd wedi arwain at ostyngiad o 4%. Dim ond 35 cwyn oedd wedi cyrraedd y trothwy er budd y cyhoedd.
- Mae nifer y cwynion ynghylch cydraddoldeb a pharch wedi cynyddu – 60% o'r holl gwynion a dderbyniwyd.
- Canllawiau statudol CLlLC – trafodaeth yn canolbwyntio ar a yw'r canllawiau ddigon clir.
- Pwyllgor Safonau Ynys Môn wedi anfon llythyr at y Fforwm.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Cam: Dim**

## 11. CYNLLUNIAU HYFFORDDIANT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y Cynlluniau Hyfforddiant Blynyddol ar gyfer Cynghorwyr a staff Cynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol), fod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn i bob Cyngor Tref a Chymuned gyflwyno copi o'u Cynlluniau Hyfforddiant unigol erbyn 31 Mai 2023 yn ei gylchlythyr ym mis Mawrth. Yng nghyfarfod ffurfiol diwethaf y Pwyllgor Safonau, adroddwyd bod pum Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb i'r cais hwnnw, ac roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n siomedig iawn â hyn. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, cytunodd y Pwyllgor Safonau i anfon gohebiaeth bellach at Gynghorau Tref a Chymuned yn gofyn iddynt gadarnhau eu bod wedi mabwysiadu Cynllun Hyfforddi. Anfonwyd cais drwy eu Cylchlythyr Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref, gyda llythyr i ddilyn ym mis Tachwedd; hyd yma mae 25 ymateb wedi'u derbyn allan o 40 ymateb posibl.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi plesio'n rhannol gyda nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned, a gwelwyd y gwelliant fel cam ymlaen. Fodd bynnag, mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghyd y risgiau ynghlwm â materion llywodraethu mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned nad oedd gan Gynlluniau Hyfforddiant ar waith.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ynghylch Cynghorau Tref a Chymuned yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

**Cam: Dim**

## 12. CRYNODEB O YMATEBION I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ADOLYGIAD PENN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Penn.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, wedi ystyried ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau Adroddiad Fframwaith Safonau Moesegol Cymru a gwblhawyd gan Richard Penn. Dywedodd fod y Pwyllgor Safonau wedi paratoi ymateb i'r ymgynghoriad, sydd wedi'i gynnwys yn y sylwadau a gwnaed gan yr Arweinyddion Grwpiau.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi crynodeb o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gellir eu gweld drwy'r ddolen a ddarparwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys crynodeb Llywodraeth Cymru ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ar yr Adroddiad Fframwaith Safonau Moesegol (Richard Penn).**
- **Fod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn hysbysu'r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddogfennaeth neu wybodaeth arall a dderbyniwyd mewn perthynas ag Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn.**

**Cam: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 a 2023/24.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ei bod yn ofyniad statudol i bob Pwyllgor Safonau baratoi Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn. Dywedodd mai Adroddiad Blynyddol 2022/23 oedd y flwyddyn gyntaf ble roedd rhaid i'r Pwyllgor Safonau ystyried asesiad ar gydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau gyda'u dyletswyddau newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd angen dilyn yr un broses o ystyried cydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau gyda'i dyletswyddau eto yn Adroddiadau Blynyddol 2023/24. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd ym mis Tachwedd i drafod y broses adrodd i'w defnyddio i fwydo i mewn i Adroddiad Blynyddol eleni. Trafodwyd addasiadau yn y cyfarfod anffurfiol hwnnw. Cadarnhaodd y Pwyllgor eu bod yn derbyn yr addasiadau a nodwyd ar Ffurflen Adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyflwyno copi o'r templed drafft addasedig i'r Arweinyddion Grwpiau yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2024. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd hefyd yn ceisio mewnbwn gan Arweinyddion Grwpiau ar y newidiadau arfaethedig. Argymhellwyd hefyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn trafod unrhyw hyfforddiant gydag Arweinyddion Grwpiau, a all fod yn berthnasol iddyn nhw o fewn eu rolau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 14. POLISI INDEMNIADAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar adolygiad y Gwasanaethau Democrataidd ar Bolisi Indemniadau'r Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod Polisi Indemniadau'r Cyngor wedi cael ei gyflwyno yn ystod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Tachwedd 2023. Dywedodd fod y Polisi yn dyddio'n ôl i 2006, pan ddaeth Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn rhan o ddeddfwriaeth, gydag awdurdodau lleol dan rwymedigaeth i gynnig indemniadau (ac yswiriant) i aelodau a swyddogion wrth ryddhau eu dyletswyddau.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod polisi yswiriant y Cyngor Sir yn rhannu'r un rôl a'r Polisi Indemniadau i'r rhan helaeth, ond, yn ychwanegol, mae'r Polisi'n cynnig diogelwch o ran digolledu aelodau mewn achosion ble mae'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri, gan fod y Cod y tu allan i gwmpas y polisi yswiriant. Dywedodd fod y cwmni yswiriant wedi gosod y telerau ac amodau, ac mai'r cwmni sy'n penderfynu a ddylid talu neu wrthod cais am iawndal.

Mae gan y Cyngor Is-bwyllgor Indemniadau i wneud penderfyniadau ar geisiadau yn unol â'r Polisi. Byddai cais am indemniad yn cael ei ganiatáu yn ôl disgresiwn yr Is-bwyllgor. Nodwyd nad oes cais ar gyfer indemniad wedi'i dderbyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf;

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod cap cenedlaethol o £20,000 yn bodoli ar hawliadau ar gyfer indemniad. Dywedodd, yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd, fod aelodau wedi mynegi pryder nad yw'r cap o £20,000 wedi cynyddu ers 2013. Cynigiodd y Pwyllgor fod y cap yn cael ei godi yn unol â chwyddiant pan fydd y Polisi'n cael ei adolygu nesaf yn 2024. Ategodd y Rheolwr ei fod yn gap cenedlaethol, nid lleol.

Dywedodd y Swyddog Monitro ei fod yn bosibl i aelod dderbyn indemniad dan y Polisi yn ôl penderfyniad yr Is-bwyllgor Indemniadau. Os bydd cais yn cyrraedd y Panel Dyfarnu, neu'r Pwyllgor Safonau, a bod yr aelod yn destun cosb o ddiarddeliad neu fwy, mae'n rhaid talu'r indemniad. Os yw'r gosb yn llai, gwneir ad-daliad yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Polisi Indemniadau a rôl y Pwyllgor Safonau o ran indemniadau sydd wedi'u cymeradwyo i aelodau, sydd yna'n cael eu dal wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.**

**Cam: Dim**

**15. ADOLYGU SAMPL O GOFRESTR DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar sampl o Gofrestr Diddordebau Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol), fel rhan o'i rhaglen waith ar gyfer 2023-24, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnal adolygiad ar sampl o Gofrestr Diddordebau Aelodau Etholedig. Dywedodd, er mwyn cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad, mae'n rhaid cadw tair cofrestr a'u diweddaru h.y., y Gofrestr Sefydlog; y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch; a Datganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd.

Nodwyd y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan 5 aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, lle bydd pob aelod yn cwblhau ymarferiad ar y dangosfwrdd. Mae Nodyn Cyngor Methodoleg wedi'i rhannu fel canllaw i helpu aelodau yn ystod y broses o gynnal adolygiadau.

Bu i'r Pwyllgor Safonau gwrdd yn anffurfiol y mis diwethaf er mwyn dewis sampl o 20 allan o 35 aelod etholedig, yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol. Dywedodd fod y Pwyllgor yn cefnogi'r syniad i adolygu Cofrestr arweinydd pob grŵp, a bydd gweddill aelodau'r grŵp hwnnw'n cael eu dewis ar hap. Nodwyd bod y broses ddethol bellach wedi'i chwblhau, ac mae rhestr o 4 wedi'i hanfon ymlaen at bob aelod annibynnol, yn nodi pa gofrestrau y byddan nhw'n eu hadolygu.

Bydd y 5 aelod annibynnol yn cwrdd yr wythnos nesaf i drafod y broses a'r amserlen maent yn bwriadu ei dilyn. Mae aelodau etholedig wedi cael gwybod am y broses adolygu fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Safonau; bydd gohebiaeth bellach yn cael ei anfon cyn dechrau'r adolygiadau.

Ar ôl yr adolygiad, bydd adroddiad cyffredinol yn cael ei baratoi a'i rannu gyda phob aelod er mwyn annog arfer da ac i gydnabod unrhyw faterion sydd angen eu datrys neu eu gwella. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Safonau yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw argymhellion sydd gan aelodau annibynnol mewn perthynas â'u canfyddiadau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.**

**Cam: Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 am

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Dr T Rhys Davies<br>Mr Brace Griffiths<br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mr Trefor Owen<br><br>**Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Cynghorydd Margaret M Roberts<br><br>**Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br>Cynghorydd Margaret Thomas (Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

**1. CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Cafodd Mr John R Jones ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

**3. ETHOL CADEIRYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd o'r Pwyllgor Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 a Pharagraff 2.9.2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Cadeirydd o blith pum aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau am dymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd neu tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben.

Roedd bywgraffiadau'r pum aelod annibynnol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn Atodiad 1 - 5.

**PENDERFYNWYD ethol Dr Rhys Davies yn Gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol).**

Bu i Mr John R Jones groesawu Dr Rhys Davies i'w rôl fel Cadeirydd a dymunodd yn dda iddo yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Diolchodd Dr Rhys Davies i Mr Jones am ei waith a'i arweiniad dros y pedair blynedd diwethaf yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, a diolchodd i'r Pwyllgor Safonau am eu cefnogaeth ac am ei ethol. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gael gweithio gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r swyddogion dros y pedair blynedd nesaf.

**4. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.

Rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith pum aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau am dymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd neu tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben.

**PENDERFYNWYD ethol Mr Trefor Owen yn Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ail-ethol).**

**DR RHYS DAVIES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | MEHEFIN 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR HYFFORDDI A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD (estyniad 2505) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG |

1. **CEFNDIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar faterion hyfforddiant a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2023 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i'n Haelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yn ychwanegol cyflwynir gwybodaeth ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Rhaglen Hyfforddiant 2024-2025.

2. **Y CYNLLUN**

Mae'r cynllun ar gyfer 2024-25 (Atodiad 1) wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; Hyfforddiant Mandadol; Ychwnaegol; Iechyd a Lles; Ar gais ac e-ddysgu.  Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn darparu diweddariad isod ar ddarparu hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd yn hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 36 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Hyfforddi Adnoddau Dynol. Manylion llawn yn Atodiad 2.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 26/35 |
| Cydraddoldeb, | 31/35 |
| Diogelu Data | 29/35 |
| Seibr-ddiogelwch | 34/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu y teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Tynnir sylw at y ffaith fod niferoedd cwblhau rhai o'r teitlau hyn yn îs nag sy'n ddymunol. Hynny er gwaethaf cynnig sawl digwyddiad dros nifer o flynyddoedd bellach ac amrywio eu ffurf a'u hamseriad h.y. wyneb yn wyneb, rhithiol, sesiynau fin nos.

Mae consyrn penodol yn codi'n sgîl hyn nad yw'r aelodau rheiny sydd heb fynychu wedi derbyn gwybodaeth sy'n allweddol i ddiwallu eu rôl. Ymhellach at hyn yn ogystal mae rhaid cydnabod hefyd bod y sefyllfa'n effeithio ar ein hymdrechion i symud y rhaglen ehangach yn ei blaen gan fod rhaid parhau i drefnu sesiynau pellach o'r teitlau hyn. Hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y rhaglen ei hun, amser ac adnodd swyddogion a chyllideb y swyddogaeth.

Cynhaliwyd sesiynau sgiliau TG 1-1 yn ystod misoedd Haf 2023. Bu i'r sesiynau hyn dderbyn canmoliaeth brwd gydag 11 o'n Haelodau Etholedig yn manteisio arnynt. Er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth hon rhannwyd holiadur sgiliau TG ar ffurf electronig, yn ogystal ag ar bapur yn ystod Rhagfyr 2023. 1 ymateb anghyflawn dderbyniwyd bryd hynny. Byddwn yn parhau i ymgynghori am anghenion dysgu yn y maes yma.

Mae Llesiant yn parhau i godi fel themâu cyson. Yn y gorffennol mae ein Haelodau Etholedig wedi eu gwahodd i'n cynigion Cyngor Cyfan sydd wedi cyfarch meysydd megis Menopôs, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Lles a Gorflino. Mae cais i'r ddarpariaeth hon fod wedi ei deilwra lle'n bosib i anghenion Cynghorwyr yn fwy penodol. Gyda hyn mewn golwg mae ymholiadau wedi eu gwneud gyda'r CLlLC a chynnig wedi ei rannu'n ddiweddar gan CLlL. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ba gynigion eraill sydd ar gael er mwyn cyfarch yr angen hwn dros gyfnod y cynllun cyfredol.

## 3. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Hoffem nodi ein diolch i'r Pwyllgor Safonau am eu harweiniad yn hyn o beth. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Gwasanaeth Democrataidd er mwyn mireinio ar gynnwys y Cynllun. Bwriedir i'r cynllun hwn gynnig cyfuniad o:

- Weithdai pwrpasol i'w cynnal ar ffurf grŵp
- Sesiynau cymhelliant 1:1
- Gyfeirio at weithdai / rhaglenni pwrpasol wedi eu trefnu gan sefydliadau perthnasol megis CLlLC ac Academi Cymru.

## 4. CYFATHREBIADAU

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelod Etholedig, ac yn parhau i esblygu yn ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol, drwy gyfeiriad e-bost *'CefnogaethAelodau'*, yn ogystal â gwahoddiadau drwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi sydd i ddod mewn fformat sy'n hawdd ei ddilyn. Mae rhain yn cael eu rhannu'n rheolaidd gydag Aelodau Etholedig (enghraifft ar gael yn Atodiad 3) gyda chopïau caled hefyd ar gael i'w weld yn lolfa'r Aelod neu ar gais.

Mae'r tîm hyfforddi yn parhau i rannu diweddariadau chwarterol gyda gwasanaethau Democrataidd yn manylu ar ffigyrau yr hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau gan Aelodau Etholedig ar gyfer y chwarter penodol hwnnw. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rannu gydag Arweinyddion y Grwpiau maes o law, a hynny mewn fformat hawdd i'w ddilyn.

Ymhellach at hyn mae gwybodaeth ddefnyddiol a chyfeirio at deitlau e-ddysgu penodol ar gael drwy'r Dashfwrdd Aelodau ar y Gronfa Ddysgu. Rydym yn edrych i ddatblygu mwy ar yr adnodd yma fel bydd amser yn mynd ymlaen i gynnwys fwy o wybodaeth ac arweiniad defnyddiol i'n Haelodau Etholedig.

## 5. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau yn cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, er bod opsiwn i gyflwyno sesiynau rhithiol yn parhau i gael eu hystyried. Mae cyfres o deitlau e-ddysgu hefyd ar gael drwy'r Gronfa Ddysgu sy'n cynnig hyblygrwydd o ran amser cwblhau. Noder y bydd y dull cyflwyno yn ddibynnol ar y maes yn ogystal â pha ddull a gynigir gan y darparwr hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i dderbyn cynnig o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn cynnar gyda'r nos, er mwyn sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau. Mae peth consyrn yn parhau i gael ei rannu ynglŷn ag addasrwydd / hwylusrwydd y trefniant yma. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ac arweiniad yn hyn o beth ac yn deisyfu ar ein Haelodau i rannu unrhyw awgrym gyda ni.

Fel ag sydd eisoes wedi ei rannu gyda'r Pwyllgor er mwyn parhau i uchafu gwerth pob ceiniog ni fydd sesiynau uniaith Gymraeg a Saesneg bellach yn cael eu cynnig. Yn hytrach byddwn yn parhau i ddeisyfu darpariaeth Gymraeg gan drefnu darpariaeth cyfieithu lle'n ofynnol.

## 6. I GRYNHOI

Mae'r cynllun a gyflwynir yn ddogfen esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio'n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 7. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad.

Tudalen 19

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

**MAI 2024 – MAWRTH 2025**

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.*

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN PERTHNASOL |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | |
| **CÔD YMDDYGIAD** | • Trosolwg o drefniadau Democrataidd;<br>*h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYDRADDOLDEB** | • Deall rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DIOGELU DATA:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeall rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deall gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deall sut i gydymffurfio â'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>*(bob 3 mlynedd)*<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb) - Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A DIOGELWCH –** *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deall gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig<br>• Trosolwg cyffredin o Diogelwch Personol i Aelodau | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig |
| **DIOGELWCH SEIBR** | • Deall effeithiau'r deddfau diogelu data newydd a'u heffaith<br>• Hyderus mewn seiberddiogelwch a sut i osgoi achos o hacio.<br>• Cefnogi ein hymdrechion i atal ymosodiadau a thoriadau data pellach ac wedi eich cymhwyso i gefnogi hyn yn ein cymunedau. | Modiwl E-Ddysgu | Holl Aelodau Etholedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **SGILIAU CADEIRIO** | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol | Cyflwyniad: (rhithiol)<br>*i'w adnewyddu pob 2 flynedd*<br><br>Darparw(y)r Allanol | Mandadol i holl Gadeiryddion ac Îs-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau |
| **CYNLLUNIO A THRWYDDEDU, LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | • Hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Mandadol i holl Aelodau Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN PERTHNASOL |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | Hyd at dri sesiwn wyneb-wrth-wyneb fel rhan o gyfnod anwytho<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU TGCH CANOLOG** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-wrth-wyneb fel rhan o gyfnod anwytho<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda phrofiad o gynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer | Cyflwyniad â chyfweliadau-ffug, a copïau i gadw<br>(wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **LLESIANT ARIANNOL A'R ARGYFWNG COSTAU BYW** | • Cyfres o sesiynau ac adnoddau yn rhoi gwybodaeth a rhannu ymarferion da ar lesiant | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r mewnol / allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ariannol a sut i ymdopi â'r argyfwng costau byw | | |
| **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU** | • Cyfres o sesiynau pwrpasol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br>Darparwyr Mewnol / Allanol | Arweinyddion Grwpiau |

Tudalen 22

| **Iechyd a Llesiant** | | | |
|---|---|---|---|
| **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFAOEDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio â sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | • Darparu dealltwriaeth o:<br>- Hydwythdedd<br>- Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **YMWYBYDDIAETH MENOPOS** | • Trosolwg i'r rhai sy'n profi Menopos neu'n dymuno gwella eu dealltwriaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN PERTHNASOL |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ar Gais** | | | |
| **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **CRAFFU** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Craffu<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion Craffu effeithiol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-wrth-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig |

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Gymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau **(gloywi i'w gytuno ar)**<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal **(i'w hadnewyddu yn ôl yr angen)**<br>- Caethwasiaeth Modern **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)** | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel - Asesiad Gweithle | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |



**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**

**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib, drwy CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru**

**Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygiad wedi eu cynnig i Aelodau Etholedig yn 2023 -24**

**Training and Development Opportunities offered to Elected Members in 2023 - 24**

| Teitl y Cwrs | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **4** | **20** | **Health & Safety for Members** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | | | **Anti Racism** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | **9** | **35** | **Anti Racism** |
| **Grwp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth** | **9** | **35** | **GROUP 6 - STRENGTHENING LEADERSHIP** |
| **(VAWDASV)** | **9** | **35** | **(VAWDSV)** |
| **Rhentu Doeth Cymru** | **2** | **10** | **Rent Smart Wales** |

# Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig

2023/24

## Mawrth 2024

**01/03/24 - Hyfforddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog** - 11:30-12:15 - *ZOOM* (*ar gais**)

*Os hoffwch fynychu, rhowch wybod i ni drwy e-bost.

**08/03/24 - Deall a Defnyddio Data Perfformiad** - 09:30-13:00 - *MS Teams*

Ar gael i Gynghorwyr ar y ***Pwyllgor Gwaith***.

**11/03/24 - Hyfforddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog** - 13:30-14:15 - *ZOOM* (*ar gais**)

*Os hoffwch fynychu, rhowch wybod i ni drwy e-bost.

**13/03/24 - Rheoli Risg i Gynghorwyr** - 16:00-17:30 - *Hyfforddiant Allanol* (*ar gais**)

**19/03/24 - Rheoli Risg i Gynghorwyr** - 16:00-17:30 - *Hyfforddiant Allanol* (*ar gais**)

Ar agor i Gynghorwyr drwy'r ***GLLC***, ac yn enwedig i'r rhai ar ***Bwyllgorau Llywodraethu*** ac ***Archwilio***.
*Os hoffwch fynychu, rhowch wybod i ni drwy e-bost.

**21/03/24 - Grŵp 6: Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol -** 09:30-11:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**25/03/24 - Rhentu Doeth Cymru** - 13:30-16:00 - *'Canolfan Fusnes Môn', Llangefni, LL77 7XA*

*Os hoffwch fynychu, rhowch wybod i ni drwy e-bost.

## Ebrill 2024

**12/04/24 - Hyfforddiant Cyfamod y Lluoedd Arfog** - 11:00-11:45 - *ZOOM* (*ar gais**)

*Os hoffwch fynychu, rhowch wybod i ni drwy e-bost.

**29/04/24 - Grŵp 6: Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol -** 17:30-19:30 - *'Ystafell Hyfforddiant 1', Pencadlys*

## Dyddiadau i'w gadarnhau:

**Cynllunio i Aelodau (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Trwyddedu i Aelodau (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Cyllid a Rheoli'r Trysorlys (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Sgiliau TGCh Cyffredinol (*I'r rhai sydd yn dymuno*)**

Dysgu Môn

**Cefnogaeth Aelodau Etholedig**
CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru

# Elected Members' *Development Plan*

2023/24

## March 2024

**01/03/24 - Armed Forces Covenant Training** - 11:30-12:15 - *ZOOM* (*on request**)

***Should you wish to attend, please let us know by e-mail.**

**08/03/24 - Understanding and Using Performance Data -** 09:30-13:00 - *MS Teams*

**Available to Councillors on the *Executive Committee*.**

**11/03/24 - Armed Forces Covenant Training** - 13:30-14:15 - *ZOOM* (*on request**)

***Should you wish to attend, please let us know by e-mail.**

**13/03/24 - Risk Management for Counillors -** 16:00-17:30 - *External Training* (*on request**)

**19/03/24 - Risk Management for Councillors -** 16:00-17:30 - *External Training* (*on request**)

**Available to Councillors through the WLGA, and particularly for those on *Governance* and *Audit Committees*.**
***Should you wish to attend, please let us know by e-mail.**

**21/03/24 - Group 6: Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence -**
09:30-11:30 - *'Training Room 1', Headquarters*

**25/03/24 - Rent Smart Wales -** 13:30-16:00 - *'Anglesey Business Centre', Llangefni, LL77 7XA*

***Should you wish to attend, please let us know by e-mail.**

## April 2024

**12/04/24 - Armed Forces Covenant Training** - 11:00-11:45 - *ZOOM* (*on request**)

***Should you wish to attend, please let us know by e-mail.**

**29/04/24 - Group 6: Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence -**
17:30-19:30 - *'Training Room 1', Headquarters*

## Dates to be confirmed:

**Planning for Members (*Mandatory for identified Members*)**
**Licensing for Members (*Mandatory for identified Members*)**
**Finance & Treasury Management (*Mandatory for identified Members*)**
**General ICT Skills (***For those who wish***)**

Dysgu Môn

**Elected Members' Support**
**ElectedMembersSupport@Anglesey.gov.wales**

# Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig

# Elected Members' Development Plan

2024/25

## Hyfforddiant i ddod | Upcoming Training

| DYDDIAD AMSER<br>DATE TIME | TEITL Y CWRS<br>COURSE TITLE | | LLEOLIAD<br>LOCATION | |
|---|---|---|---|---|
| 25/05/2024<br>09:30-12:30 | Deallt a Rheoli Data Perfformiad | Understanding and Using Performance Data | Ystafell Hyfforddiant 1, Pencadlys | Training Room 1, Council HQ |
| 25/05/2024<br>13:30-16:00 | **Mandadol**<br>Iechyd a Diogelwch | **Mandatory**<br>Health & Safety | Canolfan Fusnes Môn, LL77 7XA | Anglesey Business Centre, LL77 7XA |
| 25/05/2024<br>09:30-16:30 | Cyfamod y Lluoedd Arfog | Armed Forces Covenant | **Ar-lein:**<br>ZOOM | **Online:**<br>ZOOM |
| 25/05/2024<br>17:30-19:30 | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

*Bydd holl sesiynau yn cael ei gynnal yn y Gymraeg lle bu trenfniadau'n caniatáu, gan ddarparu wasanaeth cyfieithu i gymryd rhan yn Saesneg lle bu angen.

*All sessions will be held in Welsh where arrangements allow, providing a translation service to participate in English where required.

**Cefnogaeth Aelodau Etholedig**
CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru
**Elected Members Support**
ElectedMembersSupport@Anglesey.gov.wales

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2023) a Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2023) yn 2023/2024 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr 2023.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2023/2024 [Hydref – Rhagfyr 2023], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2023/2024, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2023/2024 [Ionawr – Mawrth 2024], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2023/2024, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

## 3. CYNGHORWYR SIR

3.1 Ar hyn o bryd mae dau achos yn cael eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â dau gynghorydd sir gwahanol. Derbyniwyd un achos ym mis Awst 2023 a derbyniwyd y llall ym mis Chwefror 2024.

## 4. CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

4.1 Cyflwynwyd cyfanswm o 5 cwyn i'r Ombwdsmon yn Chwarter 4 2023/2024, pob un yn ymwneud â Chynghorwyr o'r un Cyngor Cymuned. Mae hyn yn gynnydd mawr o'i gymharu â gweddill y flwyddyn oherwydd ni gyflwynwyd cwynion am CTCau yn Chwarter 1, Chwarter 2 na Chwarter 3.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 – 4**.

## ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| 1 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 yn 2023/2024 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 2 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 yn 2023/2024 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |
| 3 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 4 yn 2023/2024 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 4 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 4 yn 2023/2024 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |

**ATODIAD / ENCLOSURE 1**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2023) – 2023/2024 – Quarter 3 (October – December 2023)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

Tudalen 33

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2023) – 2023/2024 – Quarter 3 (October – December 2023)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT** | | | | |

**ATODIAD / ENCLOSURE 3**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2024) – 2023/2024 – Quarter 4 (January – March 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn ymchwilio'r gŵyn /<br>O is investigating the complaint |

ATODIAD / ENCLOSURE 4

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

### Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2024) – 2023/2024 – Quarter 4 (January – March 2024)

Tudalen 36

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn ymchwilio'r gŵyn / O is investigating the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 025578<br>202308844 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 19.02.2024 | O wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn / O has decided not to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 025577<br>202308351 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 20.02.2024 | O wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn / O has decided not to investigate the complaint |

**ATODIAD / ENCLOSURE 4**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Aelod o’r cyhoedd / Member of the public | 025582<br>202309057 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 22.02.2024 | O wedi penderfynu peidio ymchwilio’r gŵyn / O has decided not to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Aelod o’r cyhoedd / Member of the public | 25655<br>202309312 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 19.03.2024 | O wedi penderfynu peidio ymchwilio’r gŵyn / O has decided not to investigate the complaint |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 31 Mai 2024.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y penawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Rhagfyr 2023 hyd Mai 2024 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig [**ATODIAD 1].**

## 2. NEWYDDLEN CHWARTEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y wefan, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi Newyddlen chwarterol.

- Mae trydydd Newyddlen Chwarterol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Medi – Rhagfyr 2023] (dyddiedig Ionawr 2024) i'w weld yma.
- Mae pedwerydd Newyddlen Chwarterol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Ionawr – Mawrth 2024] (dyddiedig Mai 2024) i'w weld yma.

## 3. CEFNDIR

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd ar OGCC i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cŵyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai pheidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys OGCC yn bodloni :-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

1. nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;
2. nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
3. y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu
4. bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (3) neu (4) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y penawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Rhagfyr 2023 hyd Mai 2024 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig. |

**ATODIAD 1**

| | Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod Achos | Dolen i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 01/16/2024 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 202207282 | Dyletswydd i gadw at y gyfraith : Cyngor Castell-nedd Port Talbot - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Dyletswydd i gadw at y gyfraith | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 03/13/2024 | Cyngor Tref Aberystwyth | 202207025/ 202106268 | Dyletswydd i gadw at y gyfraith : Cyngor Tref Aberystwyth - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Dyletswydd i gadw at y gyfraith | Cyfeiriwyd at Panel Dyfarnu Cymru | Nid yw Panel Dyfarnu Cymru wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 03/27/2024 | Cyngor Tref Cei Newydd | 202204033 | Dyletswydd i gadw at y gyfraith : Cyngor Tref Cei Newydd - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Dyletswydd i gadw at y gyfraith | Cyfeiriwyd at Panel Dyfarnu Cymru | Nid yw Panel Dyfarnu Cymru wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 03/11/2024 | Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau | 202203308 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Fynwy wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 03/27/2024 | Cyngor Tref Porthcawl | 202201160/ 202201353 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Porthcawl - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 03/27/2024 | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 202204885 | Datgelu a Chofrestr Buddiannau : Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Datgelu a Chofrestr Buddiannau | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Canfu Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. Gellir gweld dolen i fanylion y gwrandawiad yma.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor mai'r gosb fwyaf priodol i'w chymhwyso oedd cerydd, a'i gofnodi pe bai'r Cyn-Aelod yn dal i fod yn Aelod etholedig, y byddent wedi gosod gwaharddiad o 4 mis. |

**ATODIAD 1**

| | Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod Achos | Dolen i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Gall yr Aelod apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. |
| | 01/05/2024 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 202206441 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Rhoddwyd cyngor i'r Aelod fod yn ymwybodol o'i ymddygiad yn y dyfodol, yn enwedig wrth geisio rheoli sefyllfaoedd dadleuol a sensitif, ac i fod yn ymwybodol o'i ddefnydd o iaith, a sut y gallai hyn ymddangos i eraill. Gan fod hwn yn ddigwyddiad 'unwaith yn unig', nid oedd yn gymesur nac o fudd i'r cyhoedd gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater. |
| | 03/26/2024 | Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod | 202207862 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Canfu'r Ombwdsmon mai anghydfod preifat oedd hwn, a bod yr Aelod wedi ceisio ei ddatrys yn breifat. Ar y cyfan, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi gan y dystiolaeth a ystyriwyd fod y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau wedi'i dorri. |
| | 12/07/2023 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 202203322/ 202203379 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Canfu Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. Penderfynodd y Pwyllgor mai'r sancsiwn mwyaf priodol i'w gymhwyso oedd ceryddu, gydag argymhelliad am hyfforddiant pellach mewn perthynas â Chod Ymddygiad yr Aelodau, gyda phwyslais arbennig ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn atal achosion o dorri rheolau rhag codi yn y dyfodol. |

**ATODIAD 1**

| | Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod Achos | Dolen i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Mae dolen at fanylion y Gwrandawiad ar gael yma. |
| | 12/13/2023 | Cyngor Dinas Casnewydd | 202207150 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Dinas Casnewydd - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod fersiwn yr achwynydd a'r Aelod o'r digwyddiad yn wahanol. Dywedodd yr Aelod nad oedd wedi cyfeirio at ei swydd fel cynghorydd. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth annibynnol gan dystion, nac unrhyw fath arall o dystiolaeth, ar gael i brofi beth ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad ac, yn unol â hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi cyfeirio at ei swydd fel cynghorydd. O ganlyniad, o ystyried nad oedd digon o dystiolaeth bod yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd yn ystod y digwyddiad, ni chafodd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Cod (gan gynnwys y gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill) eu dilyn. Yr unig ddarpariaeth yn y Cod sy'n berthnasol bob amser, gan gynnwys pan oedd yr Aelod yn gweithredu'n breifat, oedd y rhwymedigaeth i beidio â gweithredu mewn ffordd y gellid yn rhesymol ystyried ei bod wedi dwyn anfri ar y Cyngor a/neu swydd cynghorydd. Er i'r achwynydd roi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad, ni siaradodd yr Heddlu â'r Aelod am y digwyddiad ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater. Yng ngoleuni hyn, canfu'r Ombwdsmon |

## ATODIAD 1

| | Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod Achos | Dolen i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | nad oedd unrhyw dystiolaeth bod yr Aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd ac ar y Cyngor. Felly, ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod tystiolaeth i awgrymu bod y Cod wedi'i dorri. |
| | 03/23/2024 | Cyngor Tref Hwlffordd | 202208468 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Hwlffordd - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Gan nad yw'r Cyn-aelod yn aelod o'r cyngor mwyach, pe bai Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir yn canfod achos o dorri'r amodau'r Cod Ymddygiad, byddai unrhyw gosb yn cael ei chyfyngu i gerydd yn unig. Yng ngoleuni'r uchod, roedd yr Ombwdsmon o'r farn na fyddai cymryd camau pellach yn fater er budd y cyhoedd. |
| | 01/12/2024 | Cyngor Cymuned Llansantffraed | 202208582 | Dyletswydd i gadw at y gyfraith : Cyngor Cymuned Llansantffraed - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Dyletswydd i gadw at y gyfraith | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 01/24/2024 | Cyngor Bro Morgannwg | 202200739 | Gwrthrychedd a phriodoldeb : Cyngor Bro Morgannwg - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Gwrthrychedd a phriodoldeb | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 02/28/2024 | Cyngor Cymuned Saint Nicolas a Thresimwn | 202104717 | Uniondeb : Cyngor Cymuned Saint Nicolas a Thresimwn - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Uniondeb | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |
| | 05/20/2024 | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 202203440 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Nid yw Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal Gwrandawiad hyd yma. |

**ATODIAD 1**

| | Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod Achos | Dolen i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | [dim dyddiad wedi ei nodi] | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 202200187 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - PSOW Cymraeg (ombwdsmon.cymru) | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyhoeddi gan OGCC ynghylch y mater hwn. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac â gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr 2023.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod;

   ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

**APW/0002/2023-024/CT: Cyn Cynghorydd Emma McNamara**

**APW/0004/2023-024/CT: Cynghorydd Attridge**

### 2.2 Apeliadau a benderfynwyd

**APW/003/2023-024/AT: Cyn Cynghorydd Louise Thomas**

**APW/005/2023-024/AT: Cynghorydd David Metcalfe**

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau o'r achosion.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r achosion sydd wedi eu cyhoeddi ar wefan Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer y cyfnod ers Rhagfyr 2023. |

CC-022335/751440

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru – Rhagfyr 2023 – Mai 2024**

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **APW/0002/2023-024/CT: Cyn Cynghorydd Emma McNamara** | Cyn Cynghorydd Emma McNamara | Cyngor Cymuned y Mwmbwls | Torri paragraff 6(1)(a)<br><br>6(1)(a) - Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Dyddiad y Gwrandawiad - 18 Mawrth 2024 | Dim torriad o baragraff 6(1)(a) | Atgoffir aelodau o Brotocol Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor – adran 5.10 o'r Cyfansoddiad a'r ddolen sydd ar gael yma.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad bod ymddygiad perthnasol yr Ymatebydd ar gyfryngau cymdeithasol yn dwyn anfri ar ei gallu personol. Fodd bynnag, ar ffeithiau penodol yr achos hwn, daeth i'r casgliad nad oedd yn ymddygiad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei hawdurdod. Dylai aelodau fod yn ofalus wrth ddibynnu ar yr achos hwn. |
| **2** | **APW/0004/2023-024/CT: Cynghorydd Attridge** | Cynghorydd Attridge | Cyngor Sirol Sir y Fflint a Chyngor Tref Cei Connah | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 4(d), 5(a), 6(1)(a), 7(a), 11(2)(a) a 14(1)(d)<br><br>4(b) – Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.<br><br>4(c) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson;<br><br>4(d) – Rhaid i aelodau beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'w cyngor neu ar ei ran.<br><br>5(a) – Rhaid i aelodau beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, | Ystyriwyd cynrychioliadau ysgrifenedig mewn cyfarfod ar 26 Ebrill 2024 | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 5(a), 6(1)(a) and 7(a). Dim torriad o baragraffau 4(d), 11(2)(a) a 14(1)(d)<br><br>Atal dros dro am 4 mis.<br><br>"*The Tribunal considered whether it ought to make a recommendation that the Respondent specifically apologise to Ms M and the officers* | |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eu bod yn gwneud hynny;<br><br>6(1)(a) - Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>7(a) – Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall.<br><br>11(2)(a) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan wnânt gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eu hawdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylent gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig;<br><br>14(1)(d) - Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad | | *for his conduct but, having considered the Sanctions Guidance (paragraphs 54 and 55), it concluded that such recommendations ought to have been directed to the authorities and/or their Standards Committees. The Tribunal nevertheless hoped that the Respondent would act upon its desire for him properly make amends for his wrongdoing*." | |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg. | | | |
| **3** | **APW/003/2023-024/AT: Cyn Cynghorydd Louise Thomas** | Cyn Cynghorydd Louise Thomas | Cyngor Cymuned y Mwmbwls | Torri paragraffau 6(1)(a) & 6(1)(d)<br><br>6(1)(a) - Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>6(1)(d) – Ni ddylai aelodau wneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran. | Dyddiad Gwrandawiad o bell - 14 Mawrth 2024 | Cymeradwyodd y Tribiwnlys Apêl benderfyniad Pwyllgor Safonau Dinas a Sir Abertawe ar 13 Hydref 2023 bod :<br><br>- Roedd y cyn-gynghorydd Thomas wedi torri Paragraffau 6(1)(a) a 6 (1)(d) o God Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls.<br><br>- Fod cyn Gynghorydd Louise Thomas yn cael ei cheryddu'n ffurfiol yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion | Nid oedd y Cynghorydd Thomas wedi mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad. Anogir pob aelod i gwblhau'r hyfforddiant hwn. |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) am dorri paragraffau 6 (1)(a) a 6 (1)(d) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>- Pe bai'r cyn-gynghorydd Louise Thomas yn dal i fod yn Gynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethu, byddai'r Tribiwnlys Apêl wedi argymell bod y Pwyllgor Safonau yn gosod gwaharddiad o 6 mis, sef y cyfnod uchafswm o waharddiad y gallai'r Pwyllgor ei osod. | |
| **4** | **APW/005/2023-024/AT: Cynghorydd David Metcalfe** | Cynghorydd David Metcalfe | Cyngor Cymuned Cefn | Torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1), 11(2)(b), 14(1)(a)(ii), 14(1)(c) a 14(1)(e) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>6(1)(a) - Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Dyddiad y penderfyniad - 8 Chwefror 2024 | Gwrthod Apêl | Atgoffir aelodau fod cyfnod o 21 diwrnod lle mae'n rhaid i geisiadau am ganiatâd i apelio gael eu derbyn gan PDC.<br><br>Mae Llywydd APW yn ystyried y posibilrwydd rhesymol o lwyddiant y pwyntiau sy'n cael eu dadlau. |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 7(a) – Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall.<br><br>11(1) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan fyddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.<br><br>11(2)(b) - Pan fydd gan aelod fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef ac y byddant yn gwneud cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eu hawdurdod, dylent ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg iddynt fod ganddynt fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o | | | |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.<br><br>14(1)(a)(ii) - Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw.<br><br>14(1)(c) – Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eu hawdurdod,<br>peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw.<br><br>14(1)(e) – Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau | | | |

## ATODIAD 1

| | Dolen at yr achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y Tribwynlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg. | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel y nodir uchod** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi ei sefydlu yng Nghymru o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

1.3 Bydd Swyddogion Monitro Awdurdodau gogledd Cymru yn mynychu ar sail rota er mwyn darparu cyngor proffesiynol.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, mae un cyfarfod o'r Fforwm wedi'i gynnal. Mynychodd Mr Rhys Davies y cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, yn ei rôl fel Is-gadeirydd (gall dirprwy fod yn bresennol yn absenoldeb y Cadeirydd).

2.2 Rhannwyd nodiadau o gyfarfod Fforwm mis Ionawr 2024 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy ebost ar 5 Mawrth 2024.

2.3 Cynhaliwyd gweithdy sgiliau hyfforddiant cadeirio ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau ar 12 Chwefror 2024. Mynychod Mr Rhys Davies a Mr Trefor Owen y gweithdy hwn.

2.4 Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar Wrandawiadau ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau yn unig ar 23 Ebrill 2024. Nid oedd Mr Rhys Davies yn gallu mynychu'r gweithdy hwn ond ers hynny mae wedi derbyn recordiad o'r hyfforddiant a bydd yn rhannu'r pwyntiau dysgu gydag aelodau maes o law.

2.5 Mae cyfarfod nesa'r Fforwm wedi'i drefnu ar 24 Mehefin 2024. Y bwriad yw y bydd Mr Trefor Owen, yn ei rôl fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau hwn, yn bresennol, yn absenoldeb y Cadeirydd.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm – "caniateir i nodiadau gael eu cylchredeg i Bwyllgorau Safonau, cyn belled â nad oes nodd i achwynydd neu Gynghorydd a gafwyd cwyn yn eu herbyn gael eu hadnabod. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/yn dilyn pob cyfarfod."

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad gan y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig y Cyngor Sir** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Darparu adborth ar ganfyddiadau'r ymarfer** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Fel rhan o'i raglen gwaith ar gyfer 2023-2024, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau buddiannau aelodau etholedig o'r Cyngor Sir. Pwrpas yr ymarfer oedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a darparu adborth, fyddai'n cynnwys pa wersi all gael eu dysgu, ar gyfer aelodau'n gyffredinol.

1.2 Mae'r ymarfer bellach wedi ei gwblhau ac mae'r Pwyllgor wedi cymryd camau er mwyn gweithredu ar yr canfyddiadau a wnaethpwyd yn ystod yr adolygiad hwn. Rhoddir crynodeb o'r gwaith yn yr adroddiad yma.

## 2. Y BROSES A DDILYNWYD

2.1 Ar 27 Hydref 2023, anfonodd y Pwyllgor Safonau ohebiaeth at holl aelodau etholedig y Cyngor Sir yn eu cynghori o fwriad y Pwyllgor i gynnal adolygiad ac yn eu hannog i wirio cynnwys eu Cofrestrau. Cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gydag Arweinyddion Grwpiau yn yr un mis er mwyn eu hysbysu o fwriad y Pwyllgor. Anfonwyd gohebiaeth bellach at yr holl aelodau yn Rhagfyr 2023, yn dilyn cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau, er mwyn cadarnhau'r broses roedd y Pwyllgor yn bwriadu ei dilyn wrth gynnal yr adolygiad.

2.2 Cafodd y broses arfaethedig, a sut byddai'r sampl fyddai'n destun yr adolygiad yn cael ei ddewis, ei drafod mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 15 Tachwedd 2023. Cadarnhawyd y trefniadau yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor yn Rhagfyr 2023.

2.3 Cwblhawyd yr adolygiadau gan 5 aelod annibynnol y Pwyllgor yn Ionawr 2024. Roedd yr adolygiadau'n cael eu cynnal fel ymarferion unigol h.y. gyda phob aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau'n cwblhau'r adolygiad yn annibynnol, ac fel ymarferiad bwrdd gwaith.

**2.4 Y sampl:**

2.4.1 Penderfynwyd y byddai'r sampl yn cynnwys 20 Aelod Etholedig gyda phob aelod annibynnol o'r Pwyllgor yn adolygu manylion 4 Aelod o'r Cyngor Sir. Dewiswyd y

sampl ar sail cydbwysedd gwleidyddol, gyda Cofrestrau'r pedwar Arweinydd Grŵp yn cael eu hadolygu, a gweddill yr aelodau'n cael eu dethol ar hap.

**2.5 Y broses:**

2.5.1 Dilynodd pob aelod annibynnol y Nodyn Cyngor a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2023 wrth gwblhau eu hadolygiadau, er mwyn sicrhau cysondeb.

2.5.2 Cwblhawyd yr adolygiad rhwng 3 a 17 Ionawr 2024 gyda phob aelod annibynnol yn darparu adborth ysgrifenedig o'u canfyddiadau.

2.5.3 Cysonwyd y wybodaeth a gasglwyd a trafodwyd y themâu a'r gwersi sydd i'w dysgu mewn cyfarfod anffurfiol o aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ar 1 Chwefror 2024.

**2.6 Canfyddiadau:**

Penderfynwyd ar y gweithredoedd a fyddai'n deillio o'r ymarferiad fel a ganlyn:

2.6.1 Anfon gohebiaeth bersonol at yr aelodau hynny a oedd yn destun adolygiad a lle roedd yr adolygwr penodol yn ystyried bod angen i'r aelod adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth a gyhoeddir o fewn eu Cofrestr Diddordebau (y Gofrestr Sefydlog) a/neu'r Gofrestr Datganiadau mewn Cyfarfodydd. Y bwriad wrth wneud hyn oedd cynnig gwybodaeth i'r aelod i'w cynorthwyo i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cod Ymddygiad ynghylch cofrestru diddordebau. Anfonwyd yr ebyst hyn at yr aelodau dan sylw ar 29 a 30 Ebrill 2024 gyda chais am ymateb. Anfonwyd gohebiaeth bellach ar 21 Mai at yr aelodau hynny na wnaeth ymateb i'r ohebiaeth gyntaf. Bydd yr aelod Pwyllgor Safonau'n ystyried codi'r mater gydag Arweinydd Grŵp yr aelod os na dderbynir ymateb gan yr aelod.

2.6.2 Mewn achosion pan fo gan y Pwyllgor Safonau gonsyrn am lesiant aelod, er enghraifft os oedd newid mewn patrwm presenoldeb, anfonwyd gohebiaeth gan yr aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau fu'n gyfrifol am adolygu Cofrestrau'r aelod yna at Arweinydd Grŵp yr aelod. Pwrpas hyn oedd er mwyn sicrhau bod yr aelod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i'w hwyluso i ymgymryd â'u dyletswyddau fel aelod etholedig. Anfonwyd tri llythyr ar 29 Ebrill 2023 gyda chais am ymateb at y Pwyllgor Safonau. Mae'r Arweinyddion Grwpiau perthnasol yn cyfathrebu a chydweithio gyda'r Pwyllgor Safonau ynghylch y materion hyn.

2.6.3 Canfuwyd materion sy'n cael eu hystyried yn faterion corfforaethol, er enghraifft materion technegol, wrth i'r aelodau annibynol gynnal eu hadolygiadau. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r materion hyn, sy'n cynnwys y broses ar gyfer aelodau'n cwblhau eu cofrestrau a'r modd y bydd gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi ar y wefan, ymysg materion eraill, gael eu codi gyda'r Prif Weithredwr er mwyn iddynt dderbyn sylw gan y swyddogion perthnasol. Anfonwyd yr ohebiaeth hon ar 31 Mai. Mae copi o'r ohebiaeth yma wedi ei rhannu efo'r Arweinyddion Grwpiau hefyd. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor i ddarparu diweddariad ar gyfer aelodau, drwy law yr Arweinyddion Grwpiau, ynghylch yr ymateb ac unrhyw ddatblygiadau a weithredir yn sgîl y llythyr hwn.

2.6.4 Penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei baratoi ar gyfer yr holl aelodau er mwyn darparu adborth ar y themâu cyffredinol a godwyd yn ystod yr ymarferiad gan obeithio y byddai'n cynnig canllaw ynghylch beth sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau yn arferion da a'r materion hynny sydd angen sylw gan aelodau. Cymerir y cyfle hefyd i'r Pwyllgor Safonau gynnig ei syniadau ar gyfer gwelliannau. Rhannwyd yr adroddiad yma gan Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gydag Arweinyddion y Grwpiau; y bwriad oedd i'r Is-Gadeirydd gyflwyno ei gynnwys ac ateb cwestiynau mewn cyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau ar 6 Mehefin, cyn iddo gael ei anfon dros ebost at yr holl aelodau. Fodd bynnag, cafodd y cyfarfod hwn ei ganslo a gwneir trefniadau bod Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau yn y dyfodol at yr un pwrpas. Caiff yr adroddiad cyffredinol, sy'n grynodeb o'r prif themau, ei rannu gyda'r holl aelodau yn dilyn y cyfarfod gyda'r Arweinyddion Grwpiau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n ystyried y broses hyd yma a pha wersi all gael eu dysgu pan/os fydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad pellach o Gofrestrau aelodau etholedig yn y dyfodol.

3.2 Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn Rhagfyr 2024 er mwyn

(a) rhannu copi o'r adroddiad cyffredinol, sy'n grynodeb o'r prif themâu o'r broses adolygu, a anfonir at yr holl aelodau yn dilyn trafodaeth gychwynnol gydag Arweinyddion Grwpiau;
ac
(b) adrodd ar y datblygiadau sydd wedi eu gwneud, yn arbennig ynghylch 2.6.3 uchod.

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Cwynion am ymddygiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ynghylch Cynghorwyr Cymuned yn chwarter 4 2023/2024**

**Conduct complaints to the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) in relation to Community Councillors during quarter 4 2023/2024**

| Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| **Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd** / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>**Mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried adroddiadau mewn perthynas â chwynion a geir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd yr adroddiad fel arfer yn ddienw ac yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Safonau er mwyn adnabod lefelau ac unrhyw dueddiadau sy'n codi. Mae hyn yn parhau i gael ei rannu â'r Pwyllgor yn gyhoeddus (Eitem 5 ar agenda'r cyfarfod hwn).**<br><br>**Mae tuedd wedi codi mewn un Cyngor Cymuned ac mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno trafod y sefyllfa yn y Cyngor Cymuned hwnnw.**<br><br>**Mae busnes y Pwyllgor Safonau yn gysylltiedig â disgwyliad rhesymol o dryloywder mewn perthynas â materion a drafodir.**<br><br>The Standards Committee considers reports in relation to the complaints received by the Public Services Ombudsman for Wales for both County Councillors and Town and Community Councillors. The report is usually anonymised and is shared with the Standards Committee to identify levels and | **Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw** / The public interest in not disclosing is:-<br><br>**Mae'r adroddiad yn cynnwys enw un Cyngor Cymuned lle mae tuedd wedi codi. Mae'n rhesymol disgwyl i drafodaethau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r mater hwn gael eu cynnal heb y wasg a'r cyhoedd yn bresennol. Penderfyniad y Pwyllgor yw a yw'n meddwl ei fod yn rhesymol datgelu enw'r Cyngor Cymuned cyn y gellir gwneud datgeliad o'r fath.**<br><br>The report details the name of one Community Council where a trend has occurred. It is reasonable to expect that the discussions of the Standards Committee in relation to this matter is done without the press and public present. The Committee's decision as to whether it thinks it reasonable to disclose the Community Council's name is required before such disclosure can be made. |

| | |
|---|---|
| any trends arising. This continues to be shared with the Committee publicly (agenda item 5 for this meeting).<br><br>A trend has occurred in one Community Council and the Standards Committee wishes to discuss the situation at that Community Council.<br><br>The business of the Standards Committee is connected with a reasonable expectation of transparency in respect of the matters discussed. | |
| **Argymhelliad** - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd a ddeuai yn sgil datgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank